

Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Ty Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG



www.caerphilly.gov.uk
www.caerffili.gov.uk

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Charlotte Evans
(Rhif Ffôn: 01443 864210 Ebst: evansca1@caerphilly.gov.uk)

Dyddiad: Dydd Mercher, 23 Medi 2020

Annwyl Syr/Fadam,

Bydd cyfarfod digidol o'r **Cabinet** yn cael ei gynnal trwy Microsoft Teams ar **Dydd Mercher, 30ain Medi, 2020 am 10.30 am**. i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol. . Mae croeso i chi ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y cyfarfod, a dylid rhoi cyfnod rhybudd o 3 diwrnod gwaith os ydych yn dymuno gwneud hynny.

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei recordio a bydd ar gael i'w weld trwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Felly, bydd delweddau/sain yr unigolion sy'n bresennol ac/neu sy'n siarad yn ystod y Cabinet ar gael i'r cyhoedd trwy'r recordiad ar wefan y Cyngor: www.caerffili.gov.uk

Yr eiddoch yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Chrissy'.

Christina Harrhy
PRIF WEITHREDWR

A G E N D A

Tudalennau

1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

2 Datganiadau o Ddiddordeb.

Atgoffi'r Cynghorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion

A greener place Man gwyrddach



I gymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:-

3 Cynhaliwyd y Cabinet ar 9fed Medi 2020. 1 - 10

Nodi- Blaenraglen Waith y Cabinet.

4 Blaenraglen Waith y Cabinet. 11 - 12

I dderbyn ac ystyried yr adroddiad(au) canlynol y mae angen penderfyniadau gweithredol arnynt:-

5 Taliadau Prydleswyr. 13 - 24

6 Fframwaith Strategol ar gyfer Adferiad. 25 - 34

7 COVID 19 - Fframwaith Adferiad Economaidd. 35 - 42

Cylchrediad:

Cynghorwyr

S. Cook, N. George, C.J. Gordon, P.A. Marsden, S. Morgan, L. Phipps, J. Ridgewell, Mrs E. Stenner a R. Whiting,

A Swyddogion Priodol.

SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH

Bydd yr unigolion hynny sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgor i siarad/roi tystiolaeth yn cael eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod hynny, weithiau bydd hyn yn cynnwys eu man gweithio neu fusnes a'r barnau a fynegir. Bydd cofnodion o'r cyfarfod gan gynnwys manylion y siaradwyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ar www.caerffili.gov.uk. ac eithrio am drafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei brosesu.

Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r [Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd Pwyllgor Llawn](#) ar ein gwefan neu cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol drwy e-bostio grifff2@caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 863028.



CABINET

COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWDY DRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER, 9FED MEDI 2020 10.30 A.M.

YN BRESENNOL:

Y Cyngorydd P. Marsden (Arweinydd) - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol), N. George (Gwastraff a Diogelwch y Cyhoedd), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), S. Morgan (Economi a Menter), L. Phipps (Tai ac Eiddo), J. Ridgewell (Amgylchedd a Seilwaith), E. Stenner (Perfformiad a Gwasanaethau Cwsmeriaid) ac R. Whiting (Addysg a Chyflawniad).

Ynghyd â:

C. Harry (Prif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau).

Hefyd yn bresennol:

S. Harris (Swyddog Dros Dro S151), Shaun Couzens (Prif Swyddog Tai), Claire Davies (Rheolwr Tai'r Sector Preifat), Paul Hudson (Arweinydd Tîm Adnewyddu Menter Busnes), C. Hunt (Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), K. Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol), S. Pugh (Rheolwr Cyfathrebu), J. Roberts-Waite (Rheolwr Cydgysylltu Strategol), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

A. Dobbs (Wilmott Dixon), J. Duggan (Wilmott Dixon), Gemma Welsher (Wilmott Dixon)

Y Cyngorydd V. James (Arsylwi), y Cyngorydd C. Mann (Arsylwi)

CYHOEDDIAD YR ARWEINYDD

Croesawodd yr Arweinydd bawb i'r cyfarfod ac esboniodd, yn dilyn cynnydd diweddar mewn achosion positif o Covid-19, fod cyfyngiadau lleol wedi'u rhoi ar waith ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, sy'n ein hatgoffa nad yw'r firws wedi diflannu ac mae wedi dod yn bwysicach byth i amddiffyn ein pobl a'n hardal.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod gan wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ragor o wybodaeth am y cyfyngiadau, yn ogystal â chwestiynau cyffredin pe bai unrhyw ymholiadau.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai).

2. DATGAN BUDDIANNAU

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau ar ddechrau'r cyfarfod nac yn ystod y cyfarfod.

3. CABINET – 22 GORFFENNAF 2020

PENDERFYNWYD bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2020 wedi'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4. CABINET – 30 GORFFENNAF 2020

PENDERFYNWYD bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2020 wedi'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET - I'W NODI

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a drefnwyd rhwng 9 Medi 2020 a 30 Medi 2020. Atgoffwyd yr Aelodau mai dogfen waith fyw yw Blaenraglen Waith y Cabinet ac felly y gallai fod newidiadau iddi.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi y bydd yr adroddiad ar Weithio Ystwyth/Hyblyg yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu ddiwedd y mis ac y bydd yn cael ei ystyried gan y Cabinet yn dilyn hyn.

Gofynnodd Aelod o'r Cabinet i Flaenraglen Waith y Cabinet ddarparu rhagolygon hwy ar yr adroddiadau sydd ar y gweill, nodwyd y bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod y Fframwaith Polisi, lle gofynnir i'r Cabinet ystyried eu blaenoriaethau, a fydd yn ei dro yn llywio'r Flaenraglen Waith hirdymor.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid nodi'r Flaenraglen Waith. Drwy godi dwylo cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

MATERION YR OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL ARNYNT

6. CYNLLUN ADSEFYDLU'R DU (UKRS)

Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am gyfranogiad yr awdurdod yng Nghynllun Adsefydlu Pobl Agored i Niwed y DU a'i gyfraniad at leddfu'r argyfwng dyngarol sy'n effeithio ar filiynau o bobl sydd wedi'u dadleoli yn Syria a gwledydd cyfagos yr Iorddonen, Twrci, y Lebanon a'r Aifft. Rhoddodd yr adroddiad drosolwg hefyd o sut mae'r rhaglen adsefydlu yn cael ei diwygio (ar ôl 2020) ac mae'n gofyn am arweiniad gan y Cabinet ar gyfranogiad yn y dyfodol yn y rhaglen adsefydlu olynol, Cynllun Adsefydlu'r DU, a/neu Gynllun Gwasgaru Ceiswyr Lloches y DU.

Nododd y Cabinet mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili oedd un o'r awdurdodau cyntaf yn y DU i gefnogi Cynllun Adsefydlu Pobl Agored i Niwed y DU a hynny yn 2015; yn ystod y 4 blynedd diwethaf mae'r awdurdod wedi llwyddo i adsefydlu 7 teulu, sy'n cynnwys 35 o

ffoaduriaid. Roedd Cynllun Adsefydlu Pobl Agored i Niwed y DU yn ymrwymiad pum mlynedd sydd bellach wedi cyrraedd camau olaf y rhaglen – cefnogir ffoaduriaid am 5 mlynedd ar ôl eu setlo gan gymryd uchafswm cyfnod amser Cynllun Adsefydlu Pobl Agored i Niwed y DU i 10 mlynedd. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynlluniau i barhau â'i chefnogaeth i ffoaduriaid o dan Gynllun Adsefydlu newydd y DU i ddechrau yn 2020. Mae'r cynllun newydd yn bwriadu adsefydlu tua 5,000 o ffoaduriaid mwyaf diamddiffyn y byd yn ei flwyddyn gyntaf.

Gofynnodd yr adroddiad hefyd am eglurhad o rôl yr awdurdod yn y rhaglen adsefydlu yn y dyfodol yn ogystal â chydabod dulliau amgen, megis y Cynllun Gwasgaru Ceiswyr Lloches, pe bai'r awdurdod yn dymuno parhau i gefnogi ymdrechion Llywodraeth y DU i gyflawni ei rhwymedigaethau rhyngwladol i ddarparu amddiffyniad dyngarol i'r rhai mewn angen.

Nodwyd bod CLILC, drwy Bartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru, wedi ysgrifennu'n ddiweddar at yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn gofyn am lefel yr ymrwymiad y gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ei roi i Gynllun Adsefydlu'r DU.

Ychwanegodd y Swyddog fod y cynllun wedi'i ohirio oherwydd y pandemig presennol ac o ganlyniad roedd i fod i ddod i ben ym mis Ebrill. Rhagwelir y bydd yn dechrau'n fuan, ond ni fu unrhyw arweiniad ynghylch yr amserlenni ar gyfer gweithredu'r cynllun newydd, fodd bynnag, rhoddwyd sicrwydd i'r Cabinet fod y Swyddfa Gartref yn parhau i gefnogi a chynnal eu hymrwymiad parhaus i Gynllun Adsefydlu'r DU.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chynhaliwyd trafodaeth.

Gofynnodd Aelod o'r Cabinet am ragor o wybodaeth am gyfradd llwyddiant y rhaglen, o ran canlyniadau, integreiddio a chynaliadwyedd. Esboniodd swyddogion fod 7 teulu wedi cael eu hadsefydlu yn y fwrdeistref hyd yma, ond esboniodd ei bod yn anodd mesur llwyddiant. Nodwyd, fodd bynnag, fod y cynefino ar gyfer pob teulu wedi mynd yn dda, er bod rhwystr iaith wedi achosi rhai problemau, ond bod rhaglen gymorth ar waith, gyda gwasanaeth dysgu gartref i oedolion 19 oed a hŷn. Mae rhaglen waith teuluol ar waith hefyd, sy'n cynnig cymorth a hyfforddiant i'r gweithle, ac o ganlyniad bydd aelod o deulu a adsefydlwyd yng Nghaerffili yn dechrau gradd Nyrsio israddedig cyn bo hir, sy'n gryn lwyddiant. Er ei bod yn anodd mesur llwyddiant y rhaglen benodol hon, rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod teuluoedd yn teimlo bod croeso iddynt a'u bod wedi ymgartrefu ac wedi cynefino.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Drwy godi dwylo, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau yn adroddiad y swyddog, y dylid cefnogi **Opsiwn 2** bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cymryd rhan yng Nghynllun Adsefydlu dilynol y DU ac y nodir bod heriau o ran argaeledd tai, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a darpariaethau lles cyffredinol fel y nodir yn yr adroddiad.

7. GWYLIAU RHENT BUSNES COVID-19 (CAMPWS TREDOMEN)

Rhoddodd yr adroddiad fanylion i'r Cabinet am gynnig i roi gwyliau rhent tri mis i denantiaid busnes ar Gampws Tredomen, yn amodol ar fodloni meini prawf penodol.

Nodwyd bod gan y Cyngor bortffolio o adeiladau diwydiannol a swyddfeydd ar draws y fwrdeistref sirol sy'n cynnwys llety diwydiannol/diwydiannol ysgafn yn bennaf, ond gyda rhywfaint o lety swyddfa. Datblygwyd y portffolio dros amser fel elfen allweddol o amcanion Datblygu Economaidd y Cyngor a'r awdurdod blaenorol.

Mae'r pandemig wedi effeithio ar fusnesau ledled y fwrdeistref sirol mewn gwahanol ffyrdd, gyda llawer yn dilyn cyngor a rheoliadau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i fabwysiadu arferion gwaith gwahanol, a thrwy fanteisio ar amrywiaeth o gynlluniau cymorth busnes COVID-19 cysylltiedig.

Y brif ffynhonnell gymorth i denantiaid busnes yn ystod cyfnod y cyfyngiadau fu'r Cynllun Grantiau Busnes Ardrethi Annomestig ledled y DU, a ddarparodd grant o naill ai £10k neu £25k i fusnesau cymwys. Mae gan gyfran sylweddol o bortffolio diwydiannol a swyddfeydd y Cyngor Werth Ardrethol o lai na £12k, a oedd yn caniatáu i'r trethdalwr (tenant) dderbyn grant o £10k. Yr eithriad nodedig yw Campws Tredomen, sy'n cael ei weithredu fel llety swyddfa â gwasanaethau. Mae'r cytundeb hwn yn golygu bod y tenantiaid yn talu rhent hollgynhwysol sy'n cynnwys Ardrethi Busnes ac sydd wedi arwain at denantiaid yn eu cael eu hunain yn anghymwys ar gyfer y cynllun grant gan mai'r Cyngor yw'r trethdalwr.

I ddechrau, gofynnodd nifer o denantiaid busnes am gymorth gan y Cyngor drwy gyfrwng gwyliau rhent. Mewn ymateb cyflwynodd Swyddogion opsiwn gohirio rhent i denantiaid busnes lle gohiriwyd y rhent a oedd yn ddyledus rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020, ar gais, i gael ei ad-dalu dros 3, 6 neu 9 mis.

Mae'r cyfnod gohirio rhenti bellach wedi dod i ben, ond mae nifer o fusnesau'n dal i ddioddef effeithiau'r cyfyngiadau gyda llawer yn adrodd am broblemau gyda llif arian parod, galw gan gwsmeriaid a materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi. O'r herwydd, gwnaed rhai ceisiadau i Swyddogion am atal rhent yn hytrach na gohirio ychwanegol/estynedig.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chynhaliwyd trafodaeth.

Amlinellodd yr Arweinydd nad y Cyngor oedd yn pennu'r meini prawf, ac mae'r adroddiad yn argymhell unioni anghysondeb er mwyn cefnogi ein busnesau lleol yn ystod yr argyfwng presennol.

Gofynnodd Aelod o'r Cabinet, wrth nodi'r gwaith sylweddol a wnaed i weinyddu grantiau i fusnesau cymwys, am ragor o wybodaeth am y busnesau hynny nad oeddent yn gymwys a'r effaith y mae'r pandemig wedi'i chael. Esboniodd swyddogion fod rhai busnesau wedi ceisio lleihau o ganlyniad i staff yn gweithio gartref, tra bod eraill wedi manteisio ar y cyfle i ehangu eu menter a cheisio grantiau dechrau busnes. Oherwydd bod y pandemig yn mynd rhagddo, gofynnwyd i'r Aelodau nodi nad yw'r goblygiadau llawn wedi'u sylweddoli eto.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Drwy godi dwylo cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a geir yn adroddiad y swyddog: -

- i) bod y rhent sy'n ddyledus gan denantiaid preifat sydd wedi'u lleoli ar Gampws Tredomen yn cael ei atal rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020 pan fodlonir y meini prawf canlynol: -
 - Byddai'r tenant wedi bod yn gymwys i gael Grant Busnes Ardrethi Annomestig pe bai wedi bod yn drethdalwyr cofrestredig ar y dyddiad cymhwyso, sef 20 Mawrth 2020.
 - Nid yw'r tenant wedi gallu manteisio ar gyllid o'r Gronfa Cadernid Economaidd.
- ii) bod yr incwm a gollwyd o hyd at £75k yn cael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn penodol a glustnodwyd a gaiff eu sefydlu i dalu costau nas ariannwyd sy'n deillio o bandemig Covid-19.

8. CRONFA BUDDSODDI TAI PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD - SAFLEOEDD CRONFA BWLCH HYFYWEDD

Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am raglen Cronfa Buddsoddi Tai Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gyda'r nod o ddatgloi safleoedd tai sydd wedi'u gohirio ar

hyn o bryd oherwydd bwlch hyfywedd ac ystyried y cyfleoedd y mae'r rhaglen yn eu cynnig i ddatgloi tri safle:

- Glofa'r Windsor yn Abertridwr
- Tir yn Gellideg Height ym Maes-y-cwmwr; a
- Thir yn Heolddu Grove ym Margod;

Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth i Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Eiddo, mewn ymgynghoriad â'r Aelod(au) Cabinet perthnasol, drafod a chwblhau gwerthiant Glofa'r Windsor i Gymdeithas Tai Unedig Cymru pe bai angen.

Nododd y Cabinet fanylion Cronfa Buddsoddi Tai Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Cartrefi i'r holl Ranbarth, yn benodol y Gronfa Bwlch Hyfywedd, a fydd yn darparu cyfleoedd argymhellion ariannu ar gyfer safleoedd sydd wedi'u hatal oherwydd costau seilwaith sylweddol neu gostau adfer.

Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i symud ymlaen a chyflwyno ceisiadau cyllid ffurfiol ar gyfer cyllid Cronfa Buddsoddi Tai a Chronfa Bwlch Hyfywedd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd mewn perthynas â thri safle â blaenoriaeth a all ddangos bwlch yn eu hyfywedd oherwydd costau seilwaith a/neu adfer.

Mae'r tri safle â blaenoriaeth naill ai'n ddyraniadau tai yng Nghynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili a fabwysiadwyd hyd at 2021 (CDLI), neu o fewn ffin yr anheddiad. Y safleoedd yw:

- Glofa'r Windsor yn Abertridwr
- Tir yn Gellideg Height ym Maes-y-cwmwr; a
- Thir yn Heolddu Grove ym Margod.

Nodwyd bod Glofa'r Windsor ym mherchnogaeth yr Awdurdodau Lleol. Mae cymeradwyaeth y Cabinet eisoes wedi'i rhoi i'r safle gael ei ddatblygu drwy 'fodel ar brydles' o ddatblygu er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth tai fforddiadwy. Fodd bynnag, er mwyn gwireddu cynllun hyfw, efallai y bydd angen i'r datblygwr arfaethedig ar gyfer y safle sef Cymdeithas Tai United Welsh, brynu'r tir, a cheisiodd yr adroddiad hefyd gymeradwyaeth i swyddogion gynnal trafodaethau ar y gwerthiant pe bai angen.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chynhaliwyd trafodaeth.

Gofynnodd Aelod o'r Cabinet am ragor o wybodaeth am y prosiectau, yn enwedig am y cynigion carbon niwtral. Esboniodd swyddogion fod yr union strwythurau tai yn cael eu trafod ar hyn o bryd gyda'r darparwr United Welsh a'r gobaithe yw y caiff hyn ei gadarnhau'n fuan. Fodd bynnag, sicrhawyd y Cabinet fod ymgyrch tuag at dai di-garbon, sy'n rhad i'w cynnal a thai cynaliadwy fel rhan o bortffolio Cartrefi Caerffili ac mae trafodaethau ar y gweill, gyda'r nodau hyn mewn golwg.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch 'Passivhaus' ac a oedd y model hwn yn rhywbeth i'w ystyried. Esboniodd swyddogion fod y safle yng Nghaerffili, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yn anelu at fodloni'r safonau a nodir yn y model hwn, yn ogystal â datblygiadau pellach a gynigir o dan Gartrefi Caerffili.

Gofynnodd Aelod o'r Cabinet am ragor o wybodaeth am y defnydd o ddatblygwyr ac a fydd Busnesau Bach a Chanolig yn cael eu defnyddio i ddatblygu'r safleoedd a sut y caiff hyn ei reoli. Esboniodd swyddogion fod Cronfa BBaCh y Gronfa Buddsoddi Tai wrthi'n cael ei datblygu gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a disgwylir manylion am yr elfen hon o'r Gronfa Buddsoddi Tai erbyn diwedd y flwyddyn. Sicrhawyd yr Aelodau y byddai unrhyw ddatblygiadau pellach yn ymwneud â'r Gronfa Busnesau Bach a Chanolig yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet pan fyddai rhagor o wybodaeth ar gael.

Roedd aelod o'r Cabinet yn falch o nodi'r ffordd y dyrannwyd safleoedd tir llwyd fel rhan o'r rhaglen a nododd bwysigrwydd defnyddio'r safleoedd hyn a'r anawsterau oedd ynghlwm, a'u gwneud yn addas i'r diben.

Cododd Aelod o'r Cabinet ymholiad, a gyflwynwyd gan aelod lleol y ward ym Maes-y-cwmwr, mewn perthynas â safle Gellideg Heights. Cododd yr aelod lleol bryderon ynghylch effaith y datblygiad ar yr amgylchedd lleol, y seilwaith ffyrdd, lleoedd mewn ysgolion a meddygfeydd a'r datblygiadau arfaethedig yn cael effaith andwyol ar drigolion lleol. Esboniodd swyddogion fod rhan o'r safle ar hyn o bryd wedi derbyn caniatâd cynllunio, a bod rhan yn cael ei dyrannu yn y CDLI a fabwysiadwyd. Mae cynnig y Gronfa Buddsoddi Tai yn cyfuno'r rhain. Cynigir defnyddio'r mynediad presennol ar gyfer cynnig y Gronfa Buddsoddi Tai ac os yw'n dderbyniol byddai'r effaith ar y lletem las yn llai nag effaith y caniatâd cynllunio presennol, gan fod y cynllun hwn yn cynnig ffordd fynediad newydd a fyddai'n torri drwy ran sylweddol o'r lletem las. Sicrhawyd yr Aelodau y bydd angen i unrhyw gynnig gael caniatâd cynllunio a byddai'r holl ystyriaethau cynllunio perthnasol, gan gynnwys mynediad, effaith ar y lletem las, pryderon amgylcheddol ac ati, yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar y cais. Byddai angen cymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy ar y cynllun hefyd. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i fodloni terfynau amser y Gronfa Buddsoddi Tai.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Drwy godi dwylo cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a geir yn adroddiad y swyddog: -

- i) nodi'r cyfleoedd a gynigir gan raglen arfaethedig Cronfa Buddsoddi Tai Dinas-Ranbarth Caerdydd a rhaglen Y Gronfa Bwlch Hyfywedd
- ii) y dylid cyflwyno ceisiadau am gyllid y Gronfa Buddsoddi Tai a'r Gronfa Bwlch Hyfywedd i Ddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer y safleoedd blaenoriaeth canlynol:
 1. Glofa'r Windsor yn Abertridwr;
 2. Tir yn Gellideg Height ym Maes-y-cwmwr; a
 3. Thir yn Heolddu Grove ym Margod.
- iii) bod Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Eiddo, mewn ymgynghoriad â'r Aelod/Aelodau Cabinet perthnasol, yn cynnal trafodaethau ar werthu Glofa'r Windsor i Gymdeithas Tai United Welsh os oes angen a'u cwblhau.

9. TAI'R SECTOR PREIFAT - Y TÎM CARTREFI GWAG ARFAETHEDIG I GYFLAWNI'R RHAGLEN CARTREFI GWAG, GAN GYNNWYS MENTER TASGLU'R CYMOEDD

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i gymryd rhan yn y rhaglen waith arfaethedig ar gyfer cartrefi gwag ac i sefydlu tîm cartrefi gwag ar gyfer Tai'r Sector Preifat, gyda'r gost gysylltiedig yn cael ei thalu drwy Gronfeydd Cyfalaf a Glustnodwyd.

Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r arian cyfalaf sydd ei angen i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cam 2 'Grantiau Eiddo Gwag' drwy fenter Tasglu'r Cymoedd a sefydlu Tîm Cartrefi Gwag.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi, heb unrhyw adnodd staff penodedig i fynd ati'n rhagweithiol i ddatrys problemau cartrefi gwag, mai dim ond gyda chwynion adweithiol sy'n gysylltiedig ag eiddo gwag hirdymor y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi gallu delio â nhw hyd yma. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i Awdurdodau Lleol fynd i'r afael yn rhagweithiol â'r problemau sy'n gysylltiedig ag eiddo gwag ac maent wrthi'n datblygu agenda orfodi ledled Cymru, gyda'r nod o sicrhau defnydd buddiol unwaith yn rhagor ar eiddo gwag, gan gynnwys cartrefi gwag. Amlinellodd yr adroddiad raglen waith cartrefi gwag y sector preifat sy'n

gysylltiedig ag agenda Llywodraeth Cymru a datblygu Tîm Cartrefi Gwag i ymgymryd â'r gwaith yn llwyddiannus yn ogystal â chyfrannu at y materion ehangach sy'n gysylltiedig ag eiddo gwag yn ein cymunedau.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chynhaliwyd trafodaeth.

Gofynnodd Aelod o'r Cabinet, wrth nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, a'r angen yn y fwrdeistref nid yn unig i sicrhau bod eiddo gwag yn cael ei ddefnyddio unwaith eto i liniaru ymddygiad gwrthgymdeithasol a delwedd gymunedol, ond er mwyn helpu i ateb y galw am dai, i gael rhagor o wybodaeth am y costau i ariannu'r tîm a nifer yr eiddo y ceisir eu defnyddio unwaith eto. Esboniodd y Swyddog fod 1 aelod o staff wedi'i neilltuo ar gyfer 1 diwrnod yr wythnos ar hyn o bryd i'r rhaglen ac o ganlyniad, dim ond camau gorfodi sy'n cael eu hystyried oherwydd amser a Chyllid cyfyngedig. Ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi bod Cyllid Tasglu'r Cymoedd ar gael, derbyniwyd ymholiadau gan 138 o berchnogion eiddo, sy'n awyddus i gymryd rhan yn y rhaglen a sicrhau defnydd o'u heiddo.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Drwy godi dwylo, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a geir yn adroddiad y swyddog: -

- i) bod yr adroddiad yn cael ei nodi;
- ii) cymeradwyo creu tîm cartrefi gwag a chyllid costau staffio cyfnod penodol o £275k i gyflawni'r rhaglen waith sy'n gysylltiedig ag agenda gorfodi eiddo gwag Llywodraeth Cymru.
- iii) bod dyraniad cyfalaf o hyd at £700k i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cam 2 'Grantiau Eiddo Gwag' drwy Fenter Tasglu'r Cymoedd yn cael eu cymeradwyo.
- iv) dylid bodloni cyfanswm y gofyniad ariannu o hyd at £975k o Gronfeydd Wrth Gefn Cyfalaf a Glustnodwyd.

EITEM FRYS – DDIM YN DESTUN GALW I MEWN

10. CYNIGION DATBLYGU ARLOESOL CARTREFI CAERFFILI – RHODFA LLANFABON, TRETTHOMAS; Y CILGANT, TRECENYDD AC YSGOL GYFUN OAKDALE

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, roedd y Maer wedi cytuno bod y penderfyniad a gynigiwyd yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau ac y dylid ei drin fel mater o frys ac felly'n cael ei eithrio rhag camau Galw i mewn. Bydd y penderfyniad yn cael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor.

Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y gwaith a wnaed hyd yma gyda Willmott Dixon i gynyddu nifer y tai fforddiadwy i'w rhentu'n gymdeithasol ym mhorthffolio Cartrefi Caerffili. Mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar ddod ag arloesedd, graddfa a momentwm i ddymuniad uchelgeisiol y Cyngor i ddarparu 400 o gartrefi erbyn 2025.

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth gan yr Aelodau i ymgysylltu'n ffurfiol â Willmott Dixon drwy fframwaith SCAPE sy'n cydymffurfio â Chyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) i ddarparu tai pwrpasol newydd, wedi'u gwneud yng Nghaerffili yn Y Cilgant, Trecenydd; Rhodfa Llanfabon, Tretthomas a hen safle Ysgol Gyfun Oakdale ar ran Cartrefi Caerffili.

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth i wneud cais am arian gan Raglen Dai Arloesol Llywodraeth Cymru ar gyfer dau o'r tri safle a nodwyd uchod fel safleoedd peilot neu arddangos (Y Cilgant, Trecenydd a Rhodfa Llanfabon, Trethomas).

Nododd y Cabinet, er mwyn dod â graddfa, cyflymder a momentwm i uchelgais y Cyngor i ddarparu 400 o gartrefi newydd rhwng 2020 a 2025 a chyflawni'r ymrwymiad i sicrhau bod Caerffili yn fwrdeistref ddi-garbon erbyn 2030, mae swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda Willmott Dixon drwy'r fframwaith SCAPE.

Nodwyd bod SCAPE yn fframwaith sy'n cydymffurfio â'r OJEU sy'n caniatáu i'r Cyngor ymrwmo i drefniant cydweithredol drwy gcontract NEC gyda Willmott Dixon a oedd wedi tendro am

ac wedi ennill elfen waith mawr y fframwaith SCAPE ac sy'n gallu darparu gwaith ar ran cleientiaid sydd â gwerth rhwng £2 miliwn ac £20 miliwn.

Un o fanteision allweddol ymgysylltu â phartner adeiladu drwy'r Fframwaith yw'r ffaith bod yr holl waith dichonoldeb cychwynnol, ymlaen llaw yn cael ei wneud yn rhad ac am ddim. Dim ond pan fydd cleientiaid yn fodlon bod y gwaith dichonoldeb yn cadarnhau bod safle'n hyfyw, y byddwch chi'n mynd i'r cam nesaf, sef y cam 'cyn-adeiladu' ac ymrwmo i drefniant contract ffurfiol lle codir ffioedd.

Nododd y Cabinet fod Willmott Dixon wedi cwblhau astudiaethau dichonoldeb ar Rodfa Llanfabon, Trethomas a'r Cilgant, Trecenydd. Mae astudiaeth ddichonoldeb amlinellol lefel uchel wedi'i chwblhau ar hen safle Ysgol Gyfun Oakdale.

Mae'r Cilgant, Trecenydd a Rhodfa Llanfabon, Trethomas ill dau yn safleoedd sy'n dod o fewn Cyfrif Refeniw Tai'r Cyngor. Mae hen safle Ysgol Gyfun Oakdale yn dod o fewn Cronfa Gyffredinol y Cyngor ac o ganlyniad rhaid dosrannu'r broses o gaffael y safle ar y gyfradd a bennir gan y Prisiwr Dosbarth.

Nodwyd bod pob astudiaeth yn dangos bod pob safle'n hyfyw i'w ddatblygu a bod Swyddogion ar y pwynt lle mae'n rhaid llunio trefniant contract ffurfiol er mwyn i Willmott Dixon ddechrau'r ymchwiliadau a'r arolygon manwl sy'n ofynnol ar bob un o'r tri safle. Bydd y cam hwn o'r Fframwaith SCAPE, sef y cam 'cyn-adeiladu', yn galluogi Willmott Dixon i ymgymryd â'r arolwg a'r gwaith dylunio sydd ei angen i ddarparu proffil cost manwl cyn i'r Cyngor ymrwmo i symud y cynlluniau ymlaen i'r cam nesaf, sef y cam 'contract datblygu'.

Amcangyfrifir mai cost y cam 'cyn-adeiladu' yw £814k ar gyfer y tri safle. Hyd yma, mae'r gwaith dichonoldeb ac ymchwil a datblygu a wnaed gan Willmott Dixon wedi'i gynnal yn rhad ac am ddim.

Nododd yr Aelodau mai'r mandad ar ddechrau'r trafodaethau gyda chynrychiolwyr Willmott Dixon oedd darparu cartrefi o ansawdd uchel sy'n effeithlon o ran ynni, yn iachach, yn hygyrch ac yn hyblyg a fyddai'n cefnogi'r economïau sylfaenol a chylchol, yn lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ac yn creu cyfleoedd newydd ar gyfer datblygu sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth. Gan ystyried y gofynion hyn, mae Willmott Dixon wedi gweithio'n agos gyda Caledan Cyf, a leolir ar Ystad Ddiwydiannol Penallta, i ddatblygu cynnyrch ffrâm ddur arloesol a gwydn o ran yr hinsawdd yn lleol ac sy'n darparu datrysiad Passivhaus, nad yw'n hylosg, gan sicrhau bod unrhyw gartrefi rhent cymdeithasol newydd yn sicrhau'r effeithlonrwydd ynni gorau posibl, yn creu amgylchedd mewnol iach, yn datblygu mannau hardd ac yn sicrhau costau rhedeg is i denantiaid.

Esboniodd swyddogion fod Llywodraeth Cymru, ar 30 Gorffennaf, wedi lansio pedwerydd blwyddyn y Rhaglen Tai Arloesol sydd â ffocws ar Ddulliau Adeiladu Modern. Nid yw Cartrefi Caerffili wedi gallu gwneud cais am arian o'r gronfa hon o'r blaen oherwydd y ffocws ar gwblhau SATC ac absenoldeb rhaglen ddatblygu. Mae cyfle bellach i Gartrefi Caerffili wneud cais am gyllid o hyd at 58% tuag at gostau symud y ddau safle arddangos ymlaen a hyd at 100% o'r costau sy'n gysylltiedig â chostau ychwanegol arloesi.

Nododd y Cabinet fod y dyddiad cau a'r broses ar gyfer cyflwyno cais am gyllid yn heriol gyda disgwyliad gan Lywodraeth Cymru y bydd cynlluniau cymwys yn cael eu cyflwyno i'w hystyried gan Gomisiwn Dylunio Cymru ddiwedd Awst a dechrau mis Medi ac y bydd ceisiadau'n cael eu cyflwyno erbyn 25 Medi. Mae'r Rhaglen Tai Arloesol yn ei gwneud yn ofynnol i gontractau adeiladu wedi'u llofnodi fod ar waith erbyn 5 Mawrth 2021 a chynlluniau i ddechrau ar y safle erbyn 30 Ebrill 2021 fan bellaf.

O ganlyniad, ceisir cymeradwyaeth frys yn awr i fynd â'r gwaith hwn i gamau nesaf y Fframwaith SCAPE sef y cyfnod cyn-adeiladu ar gyfer hen safle Ysgol Gyfun Oakdale, Y Cilgant, Trecenydd a Rhodfa Llanfabon, Trethomas am amcangyfrif o £814k.

Ceisiodd yr adroddiad gymeradwyaeth i fynd â safleoedd Y Cilgant, Trecenydd a Rhodfa Llanfabon, Trethomas drwy i'r cam cynllunio llawn ac wedi hynny eu datblygu ar gost o £3.7 miliwn. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn dilyn y gwaith cyn-adeiladu ar safle Oakdale cyn i'r cyfnod contract datblygu nesaf gychwyn.

Ceisir cymeradwyaeth hefyd i wneud cais am arian gan Raglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru ar gyfer camau contract cyn-adeiladu a datblygu'r fframwaith SCAPE sy'n ymwneud â'r Cilgant, Trecenydd a Rhodfa Llanfabon, Trethomas. Ni fydd safle Oakdale yn gymwys i gael y cyllid grant hwn gan na ragwelir y caiff ei ddatblygu ar gyfer tai fforddiadwy yn unig sy'n ofyniad allweddol ar gyfer y dyfarniad grant.

Sicrhawyd y Cabinet y bydd y tri chynllun yn ddarostyngedig i ofynion cynllunio a'r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy. Mae proses rag-gymhwyso ar y gweill ar gyfer safleoedd Trecenydd a Threthomas. Mae'r Cyfrif Tai Refeniw wedi cynnwys datblygu adeiladau yn ei bortffolio ac mae cynigion wedi'u cyflwyno yng Nghynllun Busnes Tai 2020/21, a gadarnhaodd ar adeg ei gyflwyno fod y Cyfrif Tai Refeniw yn parhau'n hyfyw a bod y gofyniad benthyca, yn fforddiadwy. Cyflwynwyd hyn cyn pandemig Covid-19.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a chroesawyd Mr A. Dobbs – Wilmott Dixon a'i gydweithwyr i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar y cynllun, yn amlinellu deunyddiau, costau a therfynau amser, yn ogystal â ffactorau cynaliadwyedd a chysylltiadau â mantra Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Diolchodd y Cabinet i Mr Dobbs am ei gyflwyniad a chafwyd trafodaeth ddilynol.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Dai ac Eiddo am fynegi eu diolch i Wilmott Dixon, a Jane Roberts-Waite a'i thîm am weithio'n ddiflino i ddod â'r adroddiad gerbron heddiw a nododd frys yr eitem oherwydd y terfynau amser a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gofynnodd Aelod o'r Cabinet am ragor o wybodaeth am gostau a dyraniad cyllid y rhaglen. Esboniodd y Swyddog fod y Rhaglen Tai Arloesol yn ei phedwaredd flwyddyn, ac nid yw Caerffili wedi gallu gwneud cais amdani hyd yma. Nodwyd y rhagwelir y bydd costau mewn perthynas â'r arloesedd a'r fframiau dur ar gyfer yr eiddo yn cael 100% o gyllid ond bydd costau'r arolwg ac ati yn cael 58%.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Drwy godi dwylo, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a geir yn adroddiad y swyddog: -

- i) y dylid cymeradwyo'r symudiad at gam cyn-adeiladu'r Fframwaith SCAPE ar gyfer Y Cilgant, Trecenydd, Rhodfa Llanfabon, Trethomas a hen safle Ysgol Oakdale ar gost o £814k.

- ii) y dylid cymeradwyo'r symudiad o gam cyn-adeiladu'r Fframwaith SCAPE i'r cam cynllunio llawn ac i'r cam datblygu ar gyfer safleoedd Y Cilgant, Trecenydd a Rhodfa Llanfabon, Trethomas am gost amcangyfrifedig o £3.7miliwn.
- iii) y cyflwynir cynnig ariannu y Rhaglen Tai Arloesol i ariannu hyd at 58% o'r costau sy'n gysylltiedig â'r cam cyn-adeiladu a datblygu safleoedd Trecenydd a Threthomas a hyd at 100% o'r costau sy'n gysylltiedig ag arloesi.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:06.

Cymeradwywyd a llofnodwyd y cofnodion fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 30 Medi 2020.

CADEIRYDD

Cabinet Date	Title	Key Issues	Author	Cabinet Member
30/09/20 10:30	Taliadau Rheoli Lesddeiliaid	Ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gynyddu taliadau gwasanaeth lesddeiliaid i adennill costau gwirioneddol ac osgoi cymhorthdal parhaus gan y Cyfrif Refeniw Tai	Couzens, Shaun;	Y Cyng. Phipps, Lisa;
30/09/20 10:30	Fframwaith Adferiad Economaidd	Rhoi trosolwg i'r Cabinet o'r fframwaith arfaethedig ar gyfer adfer economaidd mewn ymateb i argyfwng COVID.	Kyte, Rhian;	Y Cyng. Morgan, Sean;
30/09/20 10:30	Fframwaith Adfer COVID	Cynnig egwyddorion cynlluniau adfer COVID y Cyngor	Harrhy, Christina;	Y Cyng. Marsden, Philippa;
14/10/20 10:30	Gweithio Ystwyth/Hyblyg	Cynnig model gweithio hyblyg i'r Cyngor	Edmunds, Richard (Ed);	Y Cyng. Gordon, Colin J;
14/10/20 10:30	Cynnig ar gyfer diwygio dull y Cyngor o drin arian parod	Rhoi'r mecanweithiau angenrheidiol ar waith i alluogi casglu arian parod yn y tymor byr yn ogystal â gwneud nifer o gynigion ar gyfer newid dull y Cyngor o drin arian parod dros y tymor canolig i'r tymor hir.	Harris, Stephen R;	Y Cyng. Stenner, Eluned;
14/10/20 10:30	Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2018/2019	Ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer adroddiad Blynyddol Statudol 2018/19	Cullinane, Anwen;	Y Cyng. Stenner, Eluned;
14/10/20 10:30	Arlwyo di-arian	Diweddarau'r aelodau ar y sefyllfa bresennol o ran datrysiad arlwyo di-arian y Cyngor mewn ysgolion a cheisio cymeradwyaeth am gyllid i ehangu'r ddarpariaeth.	Richards, Sue;	Y Cyng. Whiting, Ross;
28/10/20 10:30	(16) Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol	Cynllun Strategol - Datblygu polisi ac opsiynau i ddarparu fframwaith ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol	Peters, Kathryn;Broadhurst, Timothy;	Y Cyng. Phipps, Lisa;

28/10/20 10:30	Gweithdrefn Recriwtio Mwy Diogel	I'r Cabinet ystyried y weithdrefn recriwtio mwy diogel a Pholisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n amlinellu'n glir ymrwymiad y Cyngor i recriwtio diogel ac arfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac atebolrwydd swyddogion i sicrhau hyn. Mae polisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n ymwneud ag Ysgolion hefyd yn dangos ymrwymiad i sicrhau arfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cadarn mewn ysgolion	Donovan, Lynne;	Y Cyng. Gordon, Colin J;
28/10/20 10:30	Rhyddid y Fwrdeistref Sirol - Y Llang Brydeinig Frenhinol	Ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i roi'r Rhyddid y Fwrdeistref i'r Llang Brydeinig Frenhinol	Forbes-Thompson, Cath;	Y Cyng. Marsden, Philippa;
28/10/20 10:30	Trwyddedau Palmant	Adolygu a diweddarau dull y Cyngor o roi trwyddedau palmant ar gyfer gosod eitemau a masnachu ar y briffordd.	Williams, Mark S;	Y Cyng. Ridgewell, John



CABINET – 30TH SEPTEMBER 2020

SUBJECT: LEASEHOLDER CHARGES

REPORT BY: CORPORATE DIRECTOR FOR EDUCATION AND CORPORATE SERVICES

-
1. The attached report was considered by the Housing and Regeneration Scrutiny Committee on 17th September 2020. The report outlined a proposal to revise existing recharges to leaseholders prior to consideration by Cabinet, so that Caerphilly Homes can recover the actual costs incurred for providing the service and the establishment of a leasehold buy back policy. Members were asked to note an amendment in the report at point 5.6 that the first increased payment would not be requested until September 2022 not 2021.
 2. Members were assured that leases include details of the leaseholder responsibilities for these charges and that copies could be provided if requested.
 3. Clarification regarding the statutory process for informing leaseholders of planned works was outlined with Members advised that leaseholders are contacted to inform them of any planned works and they can suggest suitable contractors that may be included in the tender process, however any nominated contractor must still meet the criteria for the tender process.
 4. The scrutiny committee were advised of the dispute process where leaseholders can query the costs, but the Council have the right to proceed as stated in the lease. Leaseholders can question the standard of work carried out and any substandard works will be rectified. There are plans to introduce a survey once works are completed in order to ascertain the views of leaseholders
 5. Following consideration and discussion the Housing and Regeneration Scrutiny Committee unanimously agreed to recommend to Cabinet that:
 - (I) The proposed increase in leaseholder management fees and the introduction of recharges for providing specific services be approved.
 - (II) A phased increase of the leaseholder management fees as outlined in section 5.6, option 2 of the attached report to become effective from April 1st 2021, be approved.
 - (III) To establish a Caerphilly Homes leasehold property 'buy back' policy, to be implemented in consultation with the Cabinet Member for Housing and Property.

Author: Catherine Forbes-Thompson, Scrutiny Manager – forbec1@caerphilly.gov.uk

Appendices: Report to Housing and Regeneration Scrutiny Committee 17th September
2020 – Agenda Item 9



HOUSING AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE – 17TH SEPTEMBER 2020

SUBJECT: LEASEHOLDER CHARGES

REPORT BY: CORPORATE DIRECTOR OF SOCIAL SERVICES & HOUSING

1. PURPOSE OF REPORT

- 1.1 To recommend to Members that they support the proposal to revise existing recharges to leaseholders prior to consideration by Cabinet so that Caerphilly Homes can recover the actual costs incurred for providing the service and the establishment of a leasehold buy back policy.

2. SUMMARY

- 2.1 This report sets out Caerphilly Homes' proposal to increase the leaseholder management fee currently charged to reflect the actual costs incurred for providing the service, these costs are currently subsidised by tenants via the Housing Revenue Account.
- 2.2 Also to introduce charging for specific services that are recoverable under the terms set out in the various leases that are in place.
- 2.3 Currently the Housing Revenue Account (HRA) bears the burden of unrecovered costs incurred from providing services to leaseholders. However, Caerphilly Homes should neither subsidise the services received by leaseholders nor seek to make a surplus income from the levied charges. Therefore, it is important that Caerphilly Homes adopts a more robust and transparent charging policy in order to demonstrate fairness and value for money.
- 2.4 Officers recognise the financial impact the proposals contained within this report will have on leaseholders and have therefore included, for your information, the mechanisms in place to assist leaseholders in meeting the various costs incurred and proposals for introducing a leasehold property buy back policy.

3. RECOMMENDATIONS

- 3.1 That members consider the proposed increase in Leaseholder Management fees and the introduction of recharges for providing specific services, prior to submission to Cabinet.
- 3.2 That members consider a phased increase of the Leaseholder Management Fees as outlined in section 5.6, option 2., prior to submission to Cabinet.

- 3.3 That members consider the establishment and implementation of a Caerphilly Homes leasehold property 'buy back' policy prior to submission to Cabinet which would be implemented in consultation with the Cabinet Member for Housing and Property.

4. REASONS FOR THE RECOMMENDATIONS

- 4.1 To ensure that Caerphilly Homes has a robust charging policy that reflects the actual costs incurred in providing the leaseholder service and has suitable mechanisms in place to assist leaseholders in meeting their associated costs.

5. THE REPORT

- 5.1 There are currently 408 flats within the council's housing stock owned by leaseholders following their sale under the Right to Buy (RTB) scheme. Many of these flats would have been sold onto others since the original purchase from the council. Due to local government reorganisations there are currently at least four different leases in use depending on when the RTB was exercised and who their landlord was at the time of sale. In addition, approximately 173 of these leasehold properties are sub-let bringing in rental income for the leaseholder who is thereby acting as the landlord.
- 5.2 Caerphilly Homes as lessor has the responsibility to maintain and repair the exterior and structure (including communal areas) of the block of flats in accordance with the terms set out in the lease. The legislation that covers leasehold matters including charging for services provided is the Landlord and Tenant Act 1985 (as amended by the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002).
- 5.3 The following table shows the charges that leaseholders are currently required to pay in accordance with the terms set out in their property lease.

Type of Charge	Amount	Comments
Ground Rent	Varies either 10 pence or 10 pounds	Recharged annually
Buildings Insurance	Varies in accordance with sum insured	Recharged annually
Management & Administration Fee	£10.00	Recharged annually The Management Fee covers: Leaseholder Officers costs, maintenance of accounts/ records, producing annual service charges/quarterly reports, provision costs, issuing invoices, cost recovery, dealing with queries, general and support costs, management of the building and estate. Providing information for and attending Leaseholder

Response Repairs	Varies in accordance with day to day works undertaken on the structure and exterior of the property	Valuation Tribunals. Support services - customer support, Central repairs, Finance, Tenant involvement, Communication, Business improvement, IT and Corporate Recharged annually where relevant
Major Works which includes an administration charge of 10% on all works undertaken (which is currently capped at £300 on WHQS works)	Varies in accordance with works undertaken	Formal consultation undertaken with leaseholders in accordance with relevant legislation. Recharged on completion of contract

5.4 As the council's HRA is a ring-fenced revenue account it is required to contain only those charges directly related to the management of the council's housing stock. In order to comply with this, leaseholder charges need to reflect the true cost of maintaining the block of flats in which their property forms a part in accordance with the terms set out in their lease. This prevents the situation occurring where tenants are subsidising the cost of leaseholders who have purchased their properties.

5.5 The leasehold management charge has been reviewed over the past year to reflect the actual cost of providing the leasehold service (*see Appendix 1*). A desktop exercise has also been undertaken with 6 other social housing providers in the area to compare charges (*see Appendix 2*) and all charge significantly more than the current Caerphilly Homes £10 management fee. The actual cost of providing the service is calculated to be £199 per leasehold property, based on 2019/20 actual costs.

5.6 There are 2 options for consideration regarding the proposed increase of the management fee.

Option 1 - Increase the recharge for the management fee to £199 with effect from 1 April 2021 to reflect the full amount payable. Review of costs completed annually, and recharges amended accordingly.

Option 2 – Phased increase over two-year period – year 1 in the sum of £100 and Year 2 at £199 to provide a transition period for leaseholders. After the initial two-year fixed period costs would then be reviewed annually, and charges amended accordingly.

Officers preferred option would be option 2.

Although for both options the first increase date would be 1st April 2021, service charge bills are issued annually in September of each year, so the first increased payment would not be requested until September 2021.

- 5.7 In addition to the proposal to increase the management fee is the introduction of recharging for specific services provided as highlighted in table below.

Task	Charge	Comments
Pre-contract enquiries – Form LPE1	£150	Leasehold information pack – issued to solicitors when a flat is being sold.
Communal lighting		To be considered for charging in the future when actual costs incurred are available. Leaseholders would be fully informed prior to any changes being implemented.
Grounds maintenance		To be considered for charging in the future when actual costs incurred are available. Leaseholders would be fully informed prior to any changes being implemented.
Communal cleansing		To be considered for charging in the future when actual costs incurred are available. Leaseholders would be fully informed prior to any changes being implemented.

- 5.8 Again, this is to ensure that the HRA is not subsidising services provided to leaseholders. It is proposed that the pre-contract enquiries charge is implemented by the 1st January 2021.
- 5.9 The Tenant & Community Involvement Team propose to inform Leaseholders of the changes prior to implementation. This will take the form of a letter detailing why the charges are being increased or introduced, the actual costs involved and an opportunity for them to contact the team for further information. In addition, if any leaseholders have concerns about paying the additional costs then the Leaseholder Services officers will be available to carry out one to one meetings to discuss the options available to them if required.
- 5.10 There are already a variety of payment options available to leaseholders to assist them with repaying charges levied. These are a repayment plan, Private Sector Housing loan, Private Sector Life-time loan, Voluntary registered charge (in exceptional circumstances only and now largely superseded by the Life-time loan option).
- 5.11 In addition, consideration is being given to the option of Caerphilly Homes buying back the property in exceptional cases e.g. if the leaseholder is in severe financial difficulties. This would not be a blanket policy applicable to all, it would be subject to satisfying certain criteria and evidence of financial position. Such criteria for example would include vacant possession of the property, potential financial investment required to enable it to be let as social housing, including meeting WHQS, housing need and demand for the specific property, and value for money. Any decision on individual buy back properties would be made by the Chief Housing Officer or

